

Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2020 am 6.30 o'r gloch ar Zoom. (Dechreuodd y cyfarfod am 6.37yh oherwydd problemau technolegol)

Presennol: Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirprwy), Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Philip Stevens Alyn Ashworth, Dyfrig Berry, Lara Pritchard, Sylvia Jennings & Carla Hargreaves; Jenny Barlow (Clerc y Dref a Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig)

Apologies: Cynghorydd Rob Parkes

Arsylwi: Cynghorydd Gwyneth Kensler

Dechreuodd y Cyng Rhys Thomas gadeirio'r cyfarfod gan fod y Cyng Gaynor Wood-Tickle yn cael problemau technoleg.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn ym mis Tachwedd a chroesawodd Y Cyng Carla Hargreaves i'w chyfarfod cyntaf.

261 Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	Eitem	Personol neu Niweidiol
Gaynor Wood-Tickle	4	Personol
Gaynor Wood-Tickle	9	Niweidiol
Roy Tickle	9	Niweidiol

262 Cadarnhau Cofnodion

Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 4 Tachwedd 2020. (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd hwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

Ail ymunodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle'r cyfarfod a pharhau i gadeirio'r cyfarfod am 6.41yh.

263 Materion yn codi:

263.1 Diweddariad Grŵp Digwyddiadau - Trafododd y Cynghorwyr Tref y digwyddiadau Yn y dyfodol a phenderfynwyd bod y Cyngor Tref cymryd drosodd y 2 ddigwyddiad (Dydd Gŵyl Dewi a digwyddiad golau Nadolig) y flwyddyn nesaf ac yn ail-werthuso ar ôl hynny.

264 Coronofirws.

I dderbyn diweddariadau gan y llywodraeth, ULIC, SLCC, NALC a CSDd mewn perthynas â'u trefniadau wrth gefn/diweddariad ac argymhellion arfaethedig. (wedi'i gylchredeg eisoes os yw'n berthnasol.)

265 Gohebiaeth a dderbyniwyd

265.1 Ymddiswyddiad Irene Williams - Roedd y Cynghorwyr Tref yn drist fod Irene wedi ymddiswyddo ond eisiau diolch iddi am eu cyfraniad a dymuno'n dda iddi.

266 Cyllid

266.1 Taliadau

266.1.1 Taliadau sy'n gofyn am awdurdodiad - Cytunwyd y canlynol

266.1.1.1 CSDd CLG Torri Glaswellt £1,579.44

	(Rhif siec 007276)	
266.1.1.2	Blachere, Profi gwifren a bollt catenary	£2,967.00
	(Rhif siec 007277)	
266.2	Adroddiadau Cyllid - Derbyniwyd yr adroddiadau chwe mis gan y Cynghorwyr Tref. Dywedodd Clerc y dref fod tanwariant sylweddol oherwydd Covid19.	
266.3	Casgliad Archwiliad allanol 2019-2020 – Derbyniodd y Cynghorwyr Tref y archwiliad a nodwyd hyn. Ni chodwyd unrhyw faterion gan yr archwilydd allanol. Diolchodd y Cynghorwyr i Glerc y Dref am ei holl waith caled yn cwblhau'r archwiliad.	
266.4	Taliadau wedi eu gwneud Tachwedd 2020 - Nodwyd y canlynol	
	1) Jones & Graham, cyflog Tachwedd	£2,529.96
	(Rhif siec 007197)	
	2) Jones & Graham, HMRC Tachwedd	£699.08
	(Rhif siec 0071988)	
	3) Jones & Graham, Pensiwn Tachwedd	£789.76
	(Rhif siec 007199)	
	4) Viking, cadair a stampiau	£205.54
	(Rhif siec 007200)	
	5) Viking, bwrdd	£169.87
	(Rhif siec 007201)	
	6) Catalyst, Medi wrthgefn	£4.86
	(Rhif siec 007202)	
	7) ASL, llungopïo Hydref	£5.00
	(Rhif siec 007267)	
	8) Planning Aid Wales, hyfforddiant ar-lein	£150.00
	(Rhif siec 007268)	
	9) Cyfieithu Cymunedol, cyfieithu cynllun llesol	£131.87
	(Rhif siec 007269)	
	10) Jones & Graham, tal gweinyddol chwarterol cyflog	£68.70
	(Rhif siec 007270)	
	11) Dŵr Cymru, Gardd DR E.P. tal gwasanaeth 01/08 - 03/11	£7.55
	(Rhif siec 007271)	
	12) Catalyst, 22" monitor	£106.80
	(Rhif siec 007272)	
	13) Catalyst, Band eang Hydref	£38.00
	(Rhif siec 007273)	
	14) Catalyst, Hydref wrth gefn	£4.90
	(Rhif siec 007274)	
	15) J Barlow, Ad daliad Zoom Hydref	£14.39
	(Rhif siec 007275)	
	Cyfanswm	£4,926.28

267 Cynllunio

267.1 01/2020/0721

Treflys, Ffordd Rhuthun, Dinbych

Dymchwel estyniadau cefn presennol a chodi estyniad cefn unllawr gan gynnwys balconi llawr cyntaf uwchben, gosod goleuadau to ar y drychiad cefn a gwaith cysylltiedig

Dim gwrthwynebiad

.....

267.2 01/2020/0737

Glandŵr, Lawnt, Dinbych

Dymchwel garej bresennol a chodi storfa allanol/adeilad atodiad newydd.

Dim gwrthwynebiad

.....

267.3 01/2020/0761

Tir Pen Y Maes, Llanrhaeadr, Dinbych

Newid defnydd tir i'w ddefnyddio fel estyniad i'r cyfleuster storio a dosbarthu tanceri llaeth presennol gan gynnwys ffurfio mynediad (cais ôl-weithredol - Ailgyflwyno)

Cododd y Cynghorwyr Tref bryderon ynghylch y cais hwn oedd angen eu nodi: Codwyd pryderon mewn perthynas â gollyngiadau llaeth, beth yw'r cynlluniau yn y digwyddiad o ollyngiad? Tirlunio - mae angen i'r gwrych digonol yn ei le i leihau effaith weledol yr ardal, y trigolion lleol a phobl sy'n mynd heibio. Hefyd a ydi'r adran Priffyrdd yn hapus gyda'r tanceri yn cyrraedd y ffordd?

.....

267.4 01/2020/0762

Tir Pen Y Maes, Llanrhaeadr, Dinbych

Newid defnydd tir i'w ddefnyddio fel estyniad i'r cyfleuster storio a dosbarthu tanceri llaeth presennol gan gynnwys lleoli uned les

Dim gwrthwynebiad

.....

267.5 01/2020/0808

47 Erw Salisbury, Dinbych

Codi estyniad to fflat un llawr yng nghefn yr annedd

Codwyd gwrthwynebiadau ar y cais hwn:

Roedd pryderon ynghylch maint gwirioneddol yr estyniad yn ychwanegol at yr estyniad presennol. Bydd hyn yn cael effaith at eiddo cyfagos, golau ac ar-edrych. Nid yw'r estyniad hefyd yn cyd-fynd ag eiddo eraill yn y lleoliad.

.....

267.6 01/2020/0832

Glanrafon, Ffordd Brwcws, Dinbych
Estyniadau ac addasiadau i'r annedd presennol (cynllun diwygiedig)

Dim gwrthwynebiad

.....

267.7 01/2020/0835

Hafod, Hen ffordd Rhuthun, Dinbych
Codi garej ddwbl ar wahân.

Dim gwrthwynebiad

.....

267.8 01/2020/0840

74 Stryd y Dyffryn, Dinbych
Tynnu a disodli rheiddiaduron a boeler presennol gan gynnwys newid fflw'r boeler allanol.

Dim gwrthwynebiad

.....

267.9 01/2020/0847

Derwen, Lon Copner, Dinbych
Gwaith i goed o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych.

Codwyd pryderon gan y Cynghorwyr Tref mewn perthynas â'r cais hwn:
Nid oes unrhyw gyfiawnhad na thystiolaeth gefnogol i gynghori pam mae angen i'r goden cedar gael ei dynnu'n llwyr. Os yw Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno i gael gwared ar y goeden, a ddylid gwneud cais i blannu coeden newydd?

.....

267.10 Apêl 01/2019/1077

Lleweni Parc, Mold Road, Dinbych

Datblygu 0.77 ha o dir trwy leoli 8 uned llety gwyliau "Eco Studios" a gwaith cysylltiedig.

Dim sylwadau pellach gan y Cynghorwyr Tref.

.....

267.11 Apêl 01/2020/0378

The Airfield, Lleweni Parc, Dinbych

Lleoli caban i'w ddefnyddio fel llety dros dro mewn cysylltiad â chlwb hedfan, creu lle parcio a gwaith cysylltiedig

Hoffai'r Cynghorwyr Tref gefnogi'r sylwadau a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych yn eu gwrthwynebiadau.

.....

267.12 Apêl 01/2020/0300

Lleweni Caravan Tourer Park, Lleweni Parc, Mold Road, Dinbych

Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 01/2016/0911/PS i gynyddu uchafswm y carafanau teithiol o 20 i 25.

Hoffai'r Cynghorwyr Tref gefnogi'r sylwadau a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych yn eu gwrthwynebiadau.

.....

267.13 Apêl 01/2020/0005

The Airfield, Lleweni Parc, Dinbych.

Cais ôl-weithredol ar gyfer codi un adeilad ffrâm ddur. Dymchwel adeilad ffrâm ddur presennol a chodi 2 adeilad ffrâm ddur i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â chlwb gleidio.

Dim sylwadau pellach gan y Cynghorwyr Tref.

.....

Cadeiriodd y Cyng Rhys Thomas y cyfarfod o'r pwynt hyn, 8.05yh oherwydd bod y Cyng Gaynor Wood-Tickle yn cael problemau technolegol.

268 Neuadd Y Dref.

268.1 Diweddariad gan Glerc y Dref - Rhannodd Clerc y Dref yr e-bost a dderbyniwyd gan Tom Booty a chadarnhaodd fod y Gegin newydd wedi'i wneud yr wythnos diwethaf a'i fod dal i fynd ar ôl y materion eraill oedd heb eu datrys. Cytunodd y Cynghorwyr Tref i gynnig Cyngor Tref Dinbych i ohirio trosglwyddo asedau tan Ebrill 2023. Bydd trafodaethau'n ailymgynnull mewn amser. Cytunodd y Cynghorwyr Tref i dalu £10,000 ychwanegol i Gyngor Sir Ddinbych am y flwyddyn ariannol 2021/2022 a chadw £5,000 rhag ofn y bydd angen.

268.2 Ad-daliad Cadwyn Clwyd - Dywedodd Clerc y Dref y bydd yr arian a dalwyd

Eisoed yn cael ei ddychwelyd a gall y Cyngor Tref wneud cais arall yn y dyfodol.

269 Cofrestr Presenoldeb Cyngorwyr - Cylchredwyd a nodwyd hyn

270 Diweddariad Cyllid cyn y gyllideb.

- 270.1 Diweddariad gan Grŵp Dyfodol Dinbych** - gwnaed awgrymiadau a chytunwyd ar yr isod mewn egwyddor gan Gyngorwyr y dref.
- 270.2 Grant symiau cymudol** - a) Mynediad posib i'r anabl o Ffordd Rhyl i'r parc Manwerthu - Clerc y Dref i ymchwilio i hyn ac adborth yng nghyfarfod mis Rhagfyr
b) Campfa awyr agored bosibl yn Ninbych Uchaf (Cae Howell) - Clerc y Dref i ymchwilio i hyn ac adborth yng nghyfarfod Mis Rhagfyr.
- 270.3 Buddion cymunedol datblygiad Tan y Sgubor** - Hoffai'r Cyngor Tref gael mwy o hysbysfyrddau cyhoeddus yn y dref. Dau yn Ninbych isaf ag un yn Ninbych uchaf (Leoliadau posib, Garej Shell, Siop y Parc a gyferbyn Ysgol Pendref - ni wnaed unrhyw benderfyniad ar leoliad) Efallai y bydd Grŵp Brenig yn gallu cynorthwyo i'w rhoi i fyny.
- Efallai y bydd Grŵp Brenig hefyd yn gallu cynorthwyo gyda'r ddau brosiect symiau cymunedig. Clerc y dref i gysylltu â CSDd gyda diweddariad ag i gael eglurhad.
- 270.4 Cyllid COVID19 Canol Tref Llywodraeth Cymru** - Penderfynodd y Cyngorwyr Tref y byddent yn gwneud cais am y cyllid ar sail 80/20 (yr uchafswm) Byddai'r rhan o'r arian ar gyfer planwyr y Dref (gan weithio gyda Grŵp Dinbych yn Blodeuo) a phrynu rhai seddi a byrddau i'w defnyddio mewn digwyddiadau. Clerc y Dref i gysylltu â CSDd gyda diweddariad.
- 270.5 Diweddariad gan Amgueddfa Dinbych** - Diweddariad wedi'i dderbyn, ei gylchredeg a'i nodi.

Gadawodd y Cyngorwyr Gaynor Wood-Tickle a Rou Tickle y cyfarfod am 8.43yh.

Dywedodd y Cyngorwyr tref hefyd yr hoffent ychwanegu £10,000 at gyllideb y flwyddyn nesaf ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 8.47yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....